O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 1 (Cy. 1)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*2 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*8 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Ionawr 2013, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:-

(i) ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(ii) ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod o ddyddiadau cau, fel y pennir yn Atodlen 5, sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 8 Ionawr ac yn dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(iii) ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 4 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y gerbytffordd tua'r dwyrain na thua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. (1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r dwyrain;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r dwyrain, drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

(i) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r gorllewin;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r dwyrain, drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn